# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDO DROS DIWYLLIANT, CHWARAEON A THWRISTIAETH

**DYDD** Llun, 18 Mehefin 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** P. Hughes-Griffiths (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
H Parsons, Rheolwr Cynorthwyol Marchnata a'r Cyfryngau
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Gwasanaethau Democrataidd – Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 2.00 - 2.30 pm

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.**

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod(ion) | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| P. Hughes Griffiths | 3 – Ceisiadau i'r Gronfa Cymorth Digwyddiadau | Mae'n byw ar draws y ffordd i leoliad Gŵyl Canol Dre 2018. |

**2. CYMERADWYO A LLOFNODI HYSBYSIAD PENDERFYNIAD Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 23AIN MAI 2018.**

**PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 23 Mai 2018, gan ei fod yn gywir.**

**3. CEISIADAU I'R GRONFA CYMORTH DIGWYDDIADAU.**

*(Noder: Fe wnaeth y Cynghorydd P. Hughes Griffiths ddatgan buddiant personol yn achos Gŵyl Canol Dre 2018).*

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn cynnwys manylion am y ceisiadau am gymorth o'r Gronfa Cymorth Digwyddiadau, a oedd wedi cael eu hasesu yn erbyn meini prawf ar sail eu cyfraniad at amcanion strategol yr Awdurdod o ran Twristiaeth, y Gymuned a'r Economi.

**PENDERFYNWYD:**

**3.1 cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o'r Gronfa Cymorth Digwyddiadau, yn amodol ar y telerau a'r amodau a bennwyd ym meini prawf y gronfa:-**

| Digwyddiad | Gwobr |
|---|---|
| Gŵyl Canol Dre 2018 | £2,000 |
| Gŵyl y Celt 2018 | £685 |
| Gŵyl Gerdd Llandeilo 2018 | £1,000 |
| Pythefnos y Glowyr, Rhydaman 2018 | £1,000 |

**3.2 yn unol â meini prawf y gronfa, na fyddid yn cefnogi'r ceisiadau canlynol**

| |
|---|
| Diwrnod LGBTQ+ Llanelli 2018 |
| Sioe Ardd Pen-bre 2018 |

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**